WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o weithgareddau ymgysylltu **Amgueddfa Cymru**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1544A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Amgueddfa Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru nac mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn ei gymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Adam Marshall ac Emma Woodcock.

# Cynnwys

Mae Amgueddfa Cymru wedi dangos ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy i rai gweithgareddau ymgysylltu ond mae'n cydnabod y gallai gymhwyso a gwreiddio'r pum ffordd o weithio'n fwy rhagweithiol drwyddi draw yn ei rhaglen ymgysylltu.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

Mae Amgueddfa Cymru yn deall bod rhaid iddi barhau i gynrychioli a dal i fod yn berthnasol i bobl Cymru ac mae ei gweledigaeth ymgysylltu hirdymor yn adlewyrchu hyn. Mae cyfle i wneud defnydd gwell o ddata a nodi cynllun ymgysylltu tymor hwy 7

Bu ffocws ataliol i beth gweithgarwch ymgysylltu, ond mae cyfleoedd i Amgueddfa Cymru nodi'n eglur sut y gall wneud cyfraniad cadarnhaol i atal allgáu diwylliannol a datblygu rhaglen o waith ataliol 8

Mae Amgueddfa Cymru wedi rhoi ystyriaeth mewn modd effeithiol i'r angen i fabwysiadu dull integredig o gyflawni ei gweithgareddau ymgysylltu ond mae gwaith pellach i'w wneud i integreiddio'i gwaith â gwaith cyrff cyhoeddus eraill 9

Mae'r Ddeddf wedi ysgogi Amgueddfa Cymru i ehangu'r ffordd y mae'n cydweithio i gyflawni ei gweithgareddau ymgysylltu ac mae'n gweithio'n dda gyda'i phartneriaid. Mae ein gwaith yn amlygu cyfle pellach i ehangu'r dull cydweithredol hwn 11

Mae Amgueddfa Cymru yn cynnwys ystod amrywiol o grwpiau a phobl i drefnu a chyflawni ei gweithgarwch ymgysylltu ac mae'n adolygu effeithiolrwydd ei fforymau cyfranogol 12

Rhan Dau: Ymateb Amgueddfa Cymru 14

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 16

# Atodiad 1

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Yn ystod 2018-19 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.

5 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, **Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**). Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.

6 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19 fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys trwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Fe wnaethom hefyd gydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

7 Gan bod y gwaith rhagarweiniol ym mlwyddyn un wedi cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant, prif ffocws y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

8 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2019. Fe gynhalion ni weithdy cychwynnol gyda staff o Amgueddfa Cymru ym mis Chwefror 2019, a wnaeth archwilio sut yr oedd pob un o'r pum ffordd o weithio wedi cael eu cymhwyso. Fe adolygon ni ddogfennau allweddol ac fe gynhalion ni gyfweliadau gyda staff o Amgueddfa Cymru a rhanddeiliaid allanol a sefydliadau partner.

9 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ein harchwiliad o weithgareddau ymgysylltu Amgueddfa Cymru, cam y mae Amgueddfa Cymru yn ei gymryd i

gyflawni ei hamcanion llesiant. Mae’r adroddiad hefyd yn nodi ymateb Amgueddfa Cymru i’n canfyddiadau.

## Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

10 Fe archwilion ni i ba raddau y mae Amgueddfa Cymru yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu a chyflawni ei gweithgareddau ymgysylltu.

11 Mae ymgysylltu’n hanfodol i weithrediadau Amgueddfa Cymru ac mae ei gweledigaeth, ‘Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau’, yn cynnwys ffocws ar wella cyfranogiad ac ymgysylltiad â’i hamgueddfeydd a hyrwyddo democratiaeth ddiwylliannol.

12 Enwodd Amgueddfa Cymru nifer o brosiectau a oedd yn rhan bwysig o’i gwaith ymgysylltu lle gellid dangos bod yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn cael ei defnyddio. Roedd y rhain yn cynnwys ei hymwneud â’r prosiect Cyfuno, menter gan Lywodraeth Cymru sy’n amcanu at atal allgáu diwylliannol; y gwaith diweddar i ailddatblygu Amgueddfa Werin Sain Ffagan; ei gwaith helaeth ar y cyd gyda phartneriaid yn y trydydd sector a’r sector cyhoeddus i gyflawni gweithgareddau sydd wedi’u bwriadu ar gyfer ystod eang o bobl; ac, fel y darparwr dysgu y tu allan i’r ystafell ddosbarth mwyaf yng Nghymru, ei gwaith gydag ysgolion.

13 Bydd Amgueddfa Cymru yn gallu cymhwyso unrhyw ganfyddiadau o’r archwiliad hwn i’w phrosiect Dwylo ar Dreftadaeth, sy’n amcanu at gynyddu cyfranogiad ac ymwneud pobl iau ag Amgueddfa Cymru.

14 Er mwyn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y ‘ffyrdd o weithio’ canlynol:

## Arddangosyn 1: y ‘pum ffordd o weithio’

Mae’r tabl isod yn nodi’r ‘pum ffordd o weithio’ a ddiffinnir yn nogfen ‘Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol[1]’ Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio** |

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio** |
| Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys** |
| Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

15 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: Mae Amgueddfa Cymru wedi dangos ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ac mae wedi cymhwyso’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy i rai gweithgareddau ymgysylltu ond mae’n cydnabod y gallai gymhwyso a gwreiddio’r pum ffordd o weithio’n fwy rhagweithiol drwyddi draw yn ei rhaglen ymgysylltu.

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Mae Amgueddfa Cymru yn deall bod rhaid iddi barhau i gynrychioli a dal i fod yn berthnasol i bobl Cymru ac mae ei gweledigaeth ymgysylltu hirdymor yn adlewyrchu hyn. Mae cyfle i wneud defnydd gwell o ddata a nodi cynllun ymgysylltu tymor hwy

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

16 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

17 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

18 Canfuom y cryfderau canlynol:

- er mwyn i weithgareddau ymgysylltu Amgueddfa Cymru barhau i fod yn llwyddiannus dros y tymor hir, mae swyddogion yn deall bod rhaid iddynt barhau i gynrychioli a dal i fod yn berthnasol i'r gymuned wrth iddi esblygu dros amser;
- Un enghraifft o ystyried anghenion hirdymor a byrdymor yw ailddatblygu Amgueddfa Werin Sain Ffagan lle cafodd ansawdd y dyluniad ei gadw'n uchel trwy gydol y broses a'i gynllunio fel bod modd i genedlaethau'r dyfodol ychwanegu at fannau ac orielau a'u datblygu;
- ceir gweledigaeth glir sy'n tanategu gweithgareddau ymgysylltu Amgueddfa Cymru. Mae am fod yn gynhwysol a hyrwyddo democratiaeth ddiwylliannol trwy alluogi pobl i gael mynediad at eu hawliau diwylliannol;
- mae gan Amgueddfa Cymru Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ymgysylltu â'r Gymuned ac mae'n ymegnïo at arwain y ffordd o ran ail-fframio rôl amgueddfeydd mewn cymdeithas trwy wneud cymunedau'n ganolog i brosesau penderfynu a gweithgareddau ymgysylltu;

[2] Gweler Atodiad 1

- nod hirdymor Amgueddfa Cymru yw democrateiddio prosesau penderfynu ar bob lefel a chael cynrychiolaeth iau ac mwy amrywiol ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr;
- defnyddiwyd cyllid allanol mwy hirdymor i gyflawni prosiectau â ffocws hwy;
- yn y gorffennol, mae Amgueddfa Cymru wedi canolbwyntio ar gyflawni amcanion byrdymor yn hytrach na deilliannau tymor hwy. Rydym yn nodi gwrthdroad yn y dull hwn, gyda deilliannau tymor hwy bellach yn fwy o flaenoriaeth; ac
- mae gwaith Amgueddfa Cymru yn cynhyrchu strategaeth ddeng mlynedd a fydd yn crisialu ei weledigaeth hirdymor ar gyfer pob maes gwaith.

19 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- gallai Amgueddfa Cymru archwilio'r posibilrwydd o wneud defnydd gwell o ddata i ddeall pwy y mae angen iddi ymgysylltu â hwy yn awr ac yn y dyfodol, a pha mor lwyddiannus yw ei gweithgareddau ymgysylltu; ac
- mae'r strategaeth ddeng mlynedd sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd yn gyfle i Amgueddfa Cymru ddatblygu ei gwaith ymgysylltu ymhellach, gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud fel rhan o ailddatblygu Sain Ffagan.

## Bu ffocws ataliol i beth gweithgarwch ymgysylltu, ond mae cyfleoedd i Amgueddfa Cymru nodi'n eglur sut y gall wneud cyfraniad cadarnhaol i atal allgáu diwylliannol a datblygu rhaglen o waith ataliol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

20 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

21 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

[3] Gweler Atodiad 1

### Yr hyn a ganfuom

22 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae Amgueddfa Cymru wedi gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion trwy ddarparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar amgueddfeydd ar gyfer plant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol;
- mae Amgueddfa Cymru yn un o'r partneriaid allweddol yn y prosiect Cyfuno, sy'n amcanu at leihau allgáu diwylliannol. Lle y bo'n bosibl, caiff gweithgareddau ymgysylltu eu halinio ag amcanion Cyfuno;
- rhoddir casgliadau ar fenthyg i amgueddfeydd a sefydliadau eraill i ffwrdd o saith safle Amgueddfa Cymru i atal cyfyngiadau a achosir gan leoliad a theithio sy'n achosi allgáu diwylliannol; ac
- mae gan Dwylo ar Dreftadaeth gyllid sydd wedi'i warantu am bum mlynedd a'i nod yw atal problem allgáu diwylliannol ar gyfer pobl ifanc rhag mynd yn waeth.

23 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- gallai Amgueddfa Cymru nodi'n fwy eglur sut y gall wneud cyfraniad cadarnhaol i atal allgáu diwylliannol a gallai fabwysiadu dull mwy rhagweithiol trwy ddatblygu rhaglen wedi'i chynllunio o waith ataliol; a
- gellid defnyddio llwyfan addysgol Amgueddfa Cymru i ganolbwyntio'i gweithgareddau ar yr agenda ataliol ehangach, er enghraifft trwy guradu arddangosion ar y newid yn yr hinsawdd.

## Mae Amgueddfa Cymru wedi rhoi ystyriaeth mewn modd effeithiol i'r angen i fabwysiadu dull integredig o gyflawni ei gweithgareddau ymgysylltu ond mae gwaith pellach i'w wneud i integreiddio'i gwaith â gwaith cyrff cyhoeddus eraill

### Yr hyn y chwilion ni amdano

24 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach Amgueddfa Cymru; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

25 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

[4] Gweler Atodiad 1

## Yr hyn a ganfuom

26 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae aliniad clir rhwng amcanion corfforaethol Amgueddfa Cymru, y Ddeddf a'r saith nod llesiant yn y Ddeddf;
- mae'r amcanion llesiant yn rhan annatod o weithgareddau ymgysylltu Amgueddfa Cymru ac mae swyddogion yn dangos ymwybyddiaeth o'r Ddeddf;
- dangosodd Amgueddfa Cymru integreiddio mewnol da trwy ei phrosiect Dwylo ar Dreftadaeth trwy rannu cyfrifoldeb am ymgysylltiad ieuenctid ar draws yr holl adrannau. Mae Amgueddfa Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod staff yn deall ei gweledigaeth ac yn teimlo'u bod yn rhan ohoni. Mae'n ceisio ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl i amlygu ei hymrwymiad i weithlu integredig a chryf ei gymhelliant.
- mae gwaith ar y prosiect Cyfuno wedi dangos bod cydweithio effeithiol a llwyddiannus gyda chyrff cyhoeddus eraill tuag at amcanion cyffredin yn bosibl; ac
- mae Amgueddfa Cymru wedi dechrau ystyried sut y gallai greu amcanion cyffredin gyda chyrff cyhoeddus eraill, o bosibl trwy 'strategaeth ddiwylliannol' i Gymru.

27 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- nid yw Amgueddfa Cymru yn mynd ati'n rheolaidd i alinio'i hamcanion llesiant ag amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill;
- Mae Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru (2016) yn darparu gweledigaeth ar gyfer diwylliant yng Nghymru. Gallai Amgueddfa Cymru ystyried sut y gallai gydweithio gyda chyrff eraill a noddir i ddatblygu dull cyffredin o fynd ar drywydd cyfranogiad ac ymgysylltu diwylliannol er mwyn cyflawni agendau ddiwylliannol sy'n dwyn manteision cymdeithasol ac amgylcheddol;
- gan nad yw'n rhan o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'n bwysig bod Amgueddfa Cymru yn ystyried sut orau i ymgysylltu â hwy fel bod integreiddio ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn bosibl. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael ymhellach â rhwystrau i gyfranogi; a
- gallai Amgueddfa Cymru fynd ati'n well i ddadansoddi'r effaith y mae ychwanegu gweithgareddau y codir tâl amdanynt at ei rhaglen yn ei chael ar ymgysylltiad. Gallai hyn ddarparu cyfleoedd i fynd ati'n fwy effeithiol i daro cydbwysedd rhwng amcanion codi incwm ychwanegol ar y naill law ac ehangu ymgysylltiad ar y llaw arall.

## Mae'r Ddeddf wedi ysgogi Amgueddfa Cymru i ehangu'r ffordd y mae'n cydweithio i gyflawni ei gweithgareddau ymgysylltu ac mae'n gweithio'n dda gyda'i phartneriaid. Mae ein gwaith yn amlygu cyfle pellach i ehangu'r dull cydweithredol hwn

### Yr hyn y chwilion ni amdano

28 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod Amgueddfa Cymru:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei hamcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu hi neu'n helpu ei rhanddeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

29 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuom

30 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae Amgueddfa Cymru yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddylunio a chyflawni ei gweithgareddau ymgysylltu;
- mae wedi defnyddio fforymau cyfranogol i adnabod partneriaid a chreu syniadau ar gyfer cydweithio;
- mae memoranda cyd-ddealltwriaeth yn cael eu cytuno gyda phartneriaid ar ddechrau prosiect i ddiffinio'n glir beth yw'r priod gyfrifoldebau a sicrhau perthnasoedd gweithio esmwyth a pharhaus;
- mae partneriaid yn teimlo bod eu mewnbwn yn cael ei werthfawrogi a bod prosiectau'n wirioneddol gydweithredol;
- mae llwyddiant cydweithio'n cael ei werthuso ar ddiwedd prosiectau ar y cyd; ac
- mae partneriaeth gyda chyrff a sefydliadau eraill wedi ehangu ac amrywiaethu sylfaen gwirfoddolwyr Amgueddfa Cymru.

31 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- mae cydweithio wedi bod yn fwy effeithiol gyda chyrff nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn berthnasol iddynt. Mae cyfle ar gyfer mwy o gydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i gyflawni ystod o weithgareddau ymgysylltu; a

[5] Gweler Atodiad 1

- fel y darparwr dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth mwyaf yng Nghymru, gallai Amgueddfa Cymru barhau i fynd ar drywydd cyfnodau preswylio mewn ysgolion fel rhan o'r cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Cymru ac ehangu ar y deilliannau cadarnhaol a gyflawnwyd hyd yma trwy ei gwaith gydag ysgolion lleol.

## Mae Amgueddfa Cymru yn cynnwys ystod amrywiol o grwpiau a phobl i drefnu a chyflawni ei gweithgarwch ymgysylltu ac mae'n adolygu effeithiolrwydd ei fforymau cyfranogol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

32 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

33 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuom

34 Canfuom y cryfderau canlynol:

- roedd fforymau cyfranogol wedi'u sefydlu cyn y Ddeddf fel rhan o ailddatblygu Sain Ffagan ac mae eu haelodaeth a'u rôl wedi esblygu dros amser;
- mae ystod eang o randdeiliaid wedi cael eu cynrychioli trwy ymwneud â'r fforymau hyn;
- mae aelodau'r fforymau wedi bod yn rhan o recriwtio swyddogion sydd wedyn yn gyfrifol am weithio gyda'r fforymau a rhanddeiliaid cysylltiedig;
- mae rhanddeiliaid wedi cael dylanwad uniongyrchol ar gyfeiriad gwaith ymgysylltu Amgueddfa Cymru, er enghraifft mae casgliadau wedi cael eu hamrywiaethu o ganlyniad i'r Fforwm Amrywiaeth. Nododd aelod o un o'r fforymau hefyd fod dylanwad y fforymau ar ailddatblygu Sain Ffagan yn weladwy;

[6] Gweler Atodiad 1

- mae Amgueddfa Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio gweithgareddau cydweithredol a chydgynhyrchiol. Er enghraifft, mae cyrsiau wedi cael eu rhedeg gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd ar safleoedd Amgueddfa Cymru;
- Yn ddiweddar fe enillodd Sain Ffagan wobr 'Amgueddfa'r Flwyddyn' y Gronfa Gelf, gyda'r canlyniad yn amlygu bod cynnwys pobl Cymru'n ffactor a gyfrannodd: 'fe'i gwnaed gan bobl Cymru ar gyfer pobl ym mhob man';
- fe wnaeth prosiectau megis Pwy sy'n Penderfynu (lle gwnaeth defnyddwyr gwasanaethau The Wallich guradu arddangosyn celf) ei gwneud yn bosibl cynnwys rhanddeiliaid yn uniongyrchol, gan dargedu'r rhai na fyddent yn ymweld ag amgueddfa fel arall o bosibl;
- mae rhanddeiliaid wedi nodi newid pendant yn natur agored Amgueddfa Cymru o ran cynnwys pobl ac mae Amgueddfa Cymru bellach yn agored iawn i syniadau gan y rhai y mae'n ymgysylltu â hwy; ac
- mae nifer o raglenni cyhoeddus yn cael eu cydgynhyrchu gyda phartneriaid a/neu gyfranogwyr, er enghraifft rhaglenni i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia, yr arddangosfeydd cefnogi dysgu gydol oes a chyfranogol yn Sain Ffagan.

35 Canfuom y meysydd canlynol i'w gwella:

- hyd yma, mae Amgueddfa Cymru wedi bod yn defnyddio fforymau cyfranogol fel dull o gynnwys rhanddeiliaid. Mae wrthi ar hyn o bryd yn ystyried modelau eraill ar gyfer eu cynnwys a dylid canlyn arni â'r gwaith hwn i sicrhau bod yr ystod ehangaf o randdeiliaid yn cael ei chyrraedd yn y modd mwyaf effeithiol; a
- lle mae'r fforymau'n dal i fodoli, dylid parhau i fonitro eu hymgysylltiad a'u heffeithiolrwydd. Lle mae hyn yn mynd yn llai, dylai Amgueddfa Cymru weithredu i ddefnyddio dulliau eraill ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid, neu fwrw golwg o'r newydd ar gyfansoddiad neu ddiben y fforwm .

# Rhan Dau: Ymateb Amgueddfa Cymru

36 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i Amgueddfa Cymru mewn gweithdy ym mis Gorffennaf 2019, yr oedd swyddogion sy'n rhan o weithgarwch ymgysylltu Amgueddfa Cymru yn bresennol ynddo. Yn y gweithdy hwn dechreuodd Amgueddfa Cymru ystyried ei hymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy, a myfyrio pellach ar ein canfyddiadau, mae Amgueddfa Cymru wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

## Hirdymor

- Adolygu'r holiadur Arolwg Ymwelwyr a gynhelir bob tair blynedd a'r fethodoleg a ddefnyddir (cynhaliwyd arolwg yn 2019; bydd yr arolwg nesaf yn 2022-23);
- Mynd ati ymhellach i ddatblygu'r gwaith o ymchwilio i raglenni wedi'u targedu a gwerthuso'r rhaglenni hynny, er enghraifft trwy Tynnu'r Llwch – Dwylo ar Dreftadaeth;
- Datblygu a chyhoeddi strategaeth ddeng mlynedd:
  - trwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynnwys partneriaid allweddol;
  - yn unol â'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio; ac
  - mewn cydweithrediad â chyrff cyhoeddus eraill yn seiliedig ar ddull 'Hawliau Diwylliannol'.
- Datblygu Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chymunedau 3-5 mlynedd, gan adeiladu ar ein Strategaeth Ymgysylltu bresennol, i ategu'r strategaeth ddeng mlynedd drosfwaol.

## Atal

- Gweithio gyda chyrff cenedlaethol eraill i hyrwyddo'r effaith fuddiol y gall cyfranogiad diwylliannol ei chael ar iechyd a llesiant pobl;
- Mynd ati ymhellach i ddatblygu'r meini prawf benthyca ar gyfer rhannu'r casgliad cenedlaethol gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol ledled Cymru;
- Datblygu mentrau cydweithio gyda sefydliadau perthnasol sy'n arbenigo mewn agendâu ataliol;
- Mynd ati ymhellach i ddatblygu'r rhaglenni arddangos a dysgu i ymateb i'r heriau a wynebir gan Gymru;
- Datblygu rhaglenni ymchwil seiliedig ar heriau sy'n amcanu at gyfrannu at ddealltwriaeth well gan y cyhoedd a llunio polisïau gwell mewn perthynas â materion perthnasol a allai gael eu hatal.

## Integreiddio

- Mynd ati ymhellach i ddatblygu'r cydweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a chyrff eraill a noddir i rannu arfer gorau, canfyddiadau ymchwil a chynlluniau ymgysylltu;
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill i ddatblygu dull cyffredin o fynd ar drywydd amcanion cydraddoldeb, cyfranogiad ac ymgysylltiad diwylliannol. Er enghraifft, cam nesaf y rhaglen Cyfuno, dulliau gwerthuso ac ymchwil ac amcanion cydraddoldeb cyffredin;
- Dadlau o blaid pwysigrwydd strategaeth ddiwylliannol a chynllun gweithredu ar gyfer Cymru gyfan gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol;
- Cyfleu'r dadleuon i Lywodraeth Cymru ynglŷn â manteision cyllido ar draws portffolios ar gyfer cyflawni mentrau megis Cyfuno;
- Trafod a datblygu ffyrdd o rannu cynrychiolaeth ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru gyda chyrff cenedlaethol eraill;
- Parhau i werthuso rhaglenni rhad ac am ddim a rhai y codir tâl amdanynt i asesu eu heffaith ar ymgysylltu ac ar greu incwm.

## Cydweithio

- Sicrhau bod astudiaethau achos arfer gorau o waith Amgueddfa Cymru yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion;
- Parhau i weithio gydag Ysgolion Arloesi i ddatblygu rhaglenni ymgysylltu mwy manwl y gellid eu haddasu ar gyfer ysgolion eraill;
- Cynnal y berthynas ag Adran Addysg Llywodraeth Cymru a'i datblygu ymhellach a cheisio cyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn.

## Cynnwys

- Parhau i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd fforymau cyfranogol a'r deilliannau a ddymunir;
- Treialu modelau eraill ar gyfer cyfranogiad gyda phartneriaid sefydledig;
- Gwerthuso effeithiolrwydd modelau eraill ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 1: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid eu hystyried yn ddangosyddion. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau ar ôl ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn? |
|---|
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol ?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru